# SWYDD-DDISGRIFIAD

## 1. MANYLION Y SWYDD

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD** | Cydlynydd Prosiect Eiddo |
| **YN ATEBOL I'R** | Partner Ased a Datblygu |
| **YN UNIONGYRCHOL ATEBOL I DDEILYDD Y SWYDD** | Dim. |
| **TÎM** | Datblygu |
| **LLEOLIAD** | Morfa Gele |
| **MANYLION CYFLOG** | Hyd at £26,829 yf |

## 2. PWRPAS

Darparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gwsmeriaid sy'n symud i'w cartrefi yn unol â'n rhaglenni Ased a Datblygu, gan reoli a chefnogi'r broses trosglwyddo.

Darparu gwasanaeth gweinyddu contract cynhwysfawr i'r tîm Gwasanaethau Eiddo a Datblygu yn unol ag amcanion a deddfwriaeth busnes.

Cynorthwyo'r timau datblygu ac eiddo i adrodd a monitro cynlluniau yn fewnol ac yn allanol.

## 3. DIMENSIYNAU Graddfa ac Amrywiaeth

Cefnogi cyflawni strategaeth Rheoli Asedau, gan gynnwys Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf 5 mlynedd (£20miliwn) a Chynlluniau Datblygu presennol a'r dyfodol (oddeutu 20)

Cadeirio a chymryd cofnodion, cofnodi a gweithredu camau o gyfarfodydd (oddeutu 8 y mis)

Yn gyfrifol am gasglu a chofnodi holl wybodaeth yn gywir ar y gronfa ddata PIMMS, gan sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol

## 4. PRIF GYFRIFOLDEBAU

I reoli prosiectau eiddo a hybu cyfathrebu ar draws adrannau gan gysylltu holl ffasedau eiddo Cartrefi Conwy a Chreu Menter gyda'i gilydd

Cydlynu trefniadau cyfathrebu eiddo mewnol ac allanol a rheoli gweithgareddau rhwng adrannau Cartrefi Conwy, Creu Menter a chontractwyr allanol

Rheoli a chydlynu digwyddiadau cyhoeddus i gefnogi cynllunio datblygiadau newydd, gan gynnwys paratoi gohebiaeth a deunydd marchnata.

Coladu a rheoli gwybodaeth cynllun a dogfennaeth a grëwyd yn ystod y broses datblygu, cefnogi'r timau datblygu ac eiddo i baratoi dogfennaeth gyfreithiol.

Rheoli proses drosglwyddo datblygiadau newydd, gan gynnwys rheoli a chydlynu diffygion, sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chofnodi'n gywir a bod diffygion yn cael eu cywiro o fewn yr amserlenni y

cytunwyd arnynt.

Cynorthwyo’r tîm datblygu i gyflawni, adrodd a monitro cynlluniau datblygu ar y gweill a rhai newydd eu cwblhau yn unol â thargedau perfformiad at ddibenion mewnol ac allanol.

Darparu trefniadau gweinyddu contract effeithiol a chynhwysfawr i'r timau gwasanaethau eiddo a datblygu, gan gynnwys rheoli cronfa ddata PIMMS a’r cyfarfodydd cynnydd ar y safle

## 5. CYFRIFOLDEBAU CORFFORAETHOL

Cefnogi Cartrefi Conwy yn weithredol wrth iddo geisio diwallu ei amcanion i ddarparu gwasanaeth rhagorol ac arloesol sy’n wirioneddol ganolbwyntio ar y cwsmer.

Cyfrannu at weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned a chyfranogiad tenantiaid yn ôl y gofyn.

Fel cynrychiolydd Grŵp Cartrefi Conwy, hybu a chynnal agwedd a delwedd gadarnhaol bob amser.

Hyrwyddo gwerthoedd Cartrefi Conwy yn gadarnhaol a herio ffyrdd traddodiadol o weithio ac ymddygiad neu sylwadau anffafriol yn adeiladol.

Sicrhau y gofynnir am adborth i'w ddefnyddio fel sail ar gyfer gwella gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid a datblygu dulliau mwy effeithiol ac effeithlon o weithio.

I sicrhau cydymffurfiaeth â Rheolau Sefydlog, polisïau a gweithdrefnau Cartrefi Conwy, safonau uniondeb sy’n ymwneud â statws elusennol y sefydliad a Rheoliad Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cefnogi'r gwaith o ddatblygu, adolygu a gweithredu polisïau a gweithdrefnau, yn benodol:

- Mentrau iechyd, diogelwch a lles
- Egwyddorion y gymdeithas ar gydraddoldeb ac amrywiaeth
- Cynlluniau rheoli risg
- Arferion rheoli perfformiad.

Defnyddio technoleg a systemau TGCh yn effeithiol drwy ddatblygu sgiliau priodol, mabwysiadu prosesau busnes effeithiol a chadw data yn ddiogel ac yn y modd cywir.

Gweithio ar y cyd mewn gweithgorau traws swyddogaethol yn ôl yr angen.

## 6. CYD-DESTUN GWAITH (yr amgylchedd, y math o gyfarpar)

Bydd deilydd y swydd yn gweithio mewn swyddfa, ond bydd yn rhaid teithio o fewn yr ardal leol. Mae defnydd rheolaidd o systemau TGCh a thechnoleg yn un o ofynion y swydd.

## 7. YMREOLAETH A GWNEUD PENDERFYNIADAU (terfynau a rhyddid)

Disgwylir i ddeiliad y swydd weithio o fewn polisïau, gweithdrefnau a deddfwriaeth y cytunwyd arnynt. Mae gwaith yn nodweddiadol yn cael ei gymell gan ddyddiadau cau cynllun. Mae gan y deiliad swydd hyblygrwydd i benderfynu ym mha drefn mae tasgau yn cael eu cwblhau i gydlynu prosiectau eiddo yn unol â dyddiadau cau y cytunwyd arnynt.

## 8. CYFATHREBU (y prif gyfathrebu sy'n digwydd, amlder, pwrpas a dull)

| | |
|---|---|
| **MEWNOL** | Cydweithwyr a Rheolwyr ar draws Cartrefi Conwy a Chreu Menter yn ddyddiol i ddatblygu, rheoli a monitro gwaith datblygu ac asedau. |
| **ALLANOL** | Tenantiaid, cwsmeriaid, rhanddeiliaid, y cyhoedd, contractwyr, amrywiol adrannau awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru, ymgynghorwyr eiddo, penseiri, peirianwyr, cyfreithwyr yn wythnosol i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i bobl sy’n symud i mewn i’n cartrefi |

## 9. MEYSYDD CYMHLETH (beth sy'n ymestyn rhywun fwyaf)

Blaenoriaethu cynlluniau ac asedau amryfal ar unrhyw adeg i gwrdd â'r dyddiadau cau.

## 10. CYTUNDEB

**Llofnod Deiliad y Swydd:** **Dyddiad:**

**Llofnod y Rheolwr Atebol:** **Dyddiad:**

# Manylion am yr Unigolyn
# Cydlynydd Prosiect Eiddo

| GWYBODAETH A PHROFIAD | Hanfodol / Dymunol | Dull asesu |
|---|---|---|
| Profiad o ddelio gyda chwsmeriaid | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Profiad o weithio i amryfal ddyddiadau cau a'u diwallu | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Profiad o reoli blaenoriaethau sy'n gwrthdaro | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Profiad o ddefnyddio systemau TGCh | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Profiad o ddarparu gwasanaeth gweinyddu cynhwysfawr i dîm prysur | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Gwybodaeth am y diwydiant eiddo ac adeiladu | Dymunol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Gwybodaeth o weithio yn y sector tai | Dymunol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| **SGILIAU** | | |
| Microsoft Office; Word ac Excel (Canolradd); Outlook (Sylfaenol) | Hanfodol | Profion Gallu |
| Cydlynu prosiect | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Sgiliau cynllunio, blaenoriaethu a threfnu | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol cadarn | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Cywirdeb a sylw i fanylder | Hanfodol | Profion Gallu |
| Gallu i weithio'n rhyngweithiol yn fewnol ac yn allanol | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Gwydnwch | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Gallu gyrru a defnyddio car * | Hanfodol | Ffurflen gais |
| Sgiliau Cymraeg | Dymunol | Ffurflen gais |
| **GOFYNION CRAIDD CARTREFI** | | |
| Wedi ymrwymo i ansawdd | Hanfodol | Cyfweliad |

| | | |
|---|---|---|
| Parchus | Hanfodol | Cyfweliad |
| Gwneud y peth iawn | Hanfodol | Cyfweliad |

## Mae Cartrefi Conwy wedi ymrwymo i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ein gweithgareddau

*Lle bo anabledd yn atal hyn, bydd yn cael ei adolygu gydag ymgeiswyr yn y cam cyfweliad i bennu a oes unrhyw addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud ar gyfer y gofyniad hwn